AWGRYMIADAU AR GYFER GWERSI CA2

1. Ant [Y Morgrugyn]

Julia Ocker, 2017, Yr Almaen

Deialog a Dadlau:

Gallwn annog pawb i gyfrannu

Atgoffwch bawb o'r rheolau siarad yr ydych wedi eu sefydlu yn y dosbarth. Gofynnwch i'r plant sut y gallant annog eu cyfoedion i rannu eu syniadau.

Dealltwriaeth Ddiwylliannol

Cyd-fyw: Democratiaeth; Cynhwysiant

Rydym yn deall sut y gall democratiaeth gynnwys pawb

Cwestiynau Trafod

Ynghylch y ffilm:

Defnyddiwch siarad mewn pâr i drafod syniadau a'u hadrodd yn ôl

- *Pam yr oedd y bòs wedi colli ei dymer?*
- *A ddylai'r morgrugyn fod wedi anufuddhau i'r rheolau yn y ffordd a wnaeth?*
- *Beth oedd canlyniadau'r newidiadau? A oeddent yn dda ar gyfer pawb?*

Y tu hwnt i'r ffilm:

- *Mae democratiaeth yn golygu bod gan bawb lais wrth wneud newidiadau – a yw rhai pobl yn gwybod yn well nag eraill?*
- *Beth y gallem ei newid ynghylch rheolau ein hystafell ddosbarth er mwyn eu gwella? Beth os ydym yn anghytuno?*
- *Sut y gallwn gynnwys syniadau pawb?*

Syniadau ar gyfer Mynegiant Diwylliannol

Gwnewch bosteri o reolau newydd ar gyfer y dosbarth a fydd yn ei wneud yn well dosbarth – cyflwynwch y rhain i'ch gilydd er mwyn cael pleidlais ar y rhai y byddwch yn eu defnyddio